MICHAEL APSLEY

Dysgu maddau

(maddeuant / cyfiawnder / gostyngeiddrwydd)

Alltudiwyd y Parchedig Michael Apsley i Harare yn Zimbabwe. Roedd wedi bod yn flaenllaw iawn yn yr ymgyrchoedd yn erbyn apartheid. Credai yn sicr fod gan y dyn tywyll ei groen ei hawliau. Arweiniodd ymgyrchoedd ar hyd a lled De Affrica. Droeon cafodd ei boenydio. Poerwyd arno. Unwaith cafodd ei daro yn ei ben a bu'n rhaid mynd ag ef i'r ysbyty. Ond daliai ati i ymgyrchu i geisio lleddfu baich y bobl dywyll eu croen. Ond un diwrnod, ym merw'r ymgyrch cafodd ei ddal gan heddlu'r wlad ac aethpwyd ag ef yn ddigon pell, sef i Harare.

Un bore ym mis Ebrill 1990 ac yntau'n agor llythyr oedd wedi'i gyfeirio ato ffrwydrodd bom oedd yn yr amlen. Rhuthrwyd ag ef i'r ysbyty leol. Cyhoeddwyd bwletin ar ran yr ysbyty: "Mae'r Tad Michael Apsley wedi colli ei ddwy law. Mae hefyd wedi colli un llygad ac mae ganddo anafiadau difrifol eraill."

Bu yn yr ysbyty am rai wythnosau. Tra oedd yno meddyliai pwy yn union oedd wedi anfon y llythyr oedd yn cynnwys y bom. Pwy ar wyneb daear fyddai'n gallu gwneud peth mor ddieflig? Tybed a oedd ganddo elynion? Ond pwy oedden nhw? Dyma'r math o gwestiynau oedd yn mynd trwy feddwl Michael yn yr ysbyty. Ond beth oedd y cam nesaf iddo? Ai derbyn yr hyn a ddigwyddodd a mynd yn ôl i Harare neu dal i ymgyrchu o blaid y tywyll eu croen? Roedd yn ddewis anodd iawn. Ond fel Cristion, ar ôl iddo adael yr ysbyty, penderfynodd fynd yn ôl i Cape Town yn Ne Affrica. A dyna a wnaeth ac, ym 1993, agorodd ganolfan i helpu pobl i ddod i delerau â thrais a chasineb. Enw'r ganolfan ar y cychwyn oedd 'Institute for the Healing of Memories'.

"Mae'r gwaith hwn yn bwysig iawn i mi," meddai Michael wrth ohebydd papur newydd o Brydain. "Yn wir, mae'r ffaith nad oes gen i ddim dwylo yn help mawr i mi."

"Beth rydych chi'n ei feddwl wrth ddweud hynny?" gofynnodd y gohebydd iddo.

"Wel," meddai yntau, "all neb ddweud nad ydw i fy hun wedi dioddef. Mae'r ffaith mod i fy hun wedi dioddef yn help i bobl eraill sydd wedi dioddef cael eu poenydio."

Daeth y newydd fod y rhai oedd wedi anfon y bom wedi'u dal. Tri dyn. Beth oedd ymateb Michael? Dywedodd ei stori wrth y gohebydd.

"Doedd o ddim yn hawdd pan glywais fod y dynion hyn wedi'u dal. Cofiwch, roeddwn wedi dioddef poen dirfawr. Roeddwn wedi colli fy nwy law, wedi colli fy llygad a hefyd wedi cael triniaeth lawfeddygol ar fy ymennydd. Roeddwn wedi bod drwyddi, coeliwch chi fi! Ond beth oedd y cam nesaf? Oeddwn i'n gallu maddau? Tydi maddau ddim yn beth hawdd. Mi fedrwch chi feddwl am faddeuant fel rhyw fath o becyn. Nid rhywbeth ffwrdd â hi ydy e. Dydy o ddim yn rhad ac yn sicr dydi maddau ddim yn beth hawdd i'w wneud.

"Mi fues i'n pendroni am ddyddiau – wythnosau a dweud y gwir. Roedd yna lawer o boen, llawer o feddwl. Mae'n rhaid i mi ddweud fod yn rhaid i bobl sy'n gwneud drwg ddangos eu bod nhw'n barod i edifarhau ac i ymddiheuro. Os ydyn nhw'n barod i wneud hynny yna mi fydda innau'n barod i faddau iddyn nhw."

Erbyn hyn mae'r ganolfan yn gweithio gyda phob math o bobl sy'n wynebu poen o unrhyw fath. Pobl sydd wedi cael eu poenydio gan eu teuluoedd neu eu ffrindiau a phobl sy'n wynebu unrhyw fath o ffyrnigrwydd. Yn ddiweddar iawn mae'r ganolfan, sy'n cael ei galw erbyn hyn yn Ganolfan yr Archoll, yn rhoi llawer iawn o sylw i helpu'r plant yn y gymuned.

Adnod: "Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef?" Mathew 5:13

Gweddi: O Dduw, bendithia fi â chasineb tuag at yr anghyfiawnder sydd yn y byd heddiw, fel y gallaf weithio'n galed dros gyfiawnder, rhyddid a heddwch. Amen.

Trafod:

- Ydi hi'n bwysig i godi canolfannau i helpu pobl sy'n cael eu poenydio?
- Pa mor anodd ydi maddau? Ydych chi'n credu fod maddau yn bwysig yn ein bywydau cymdeithasol heddiw?